# Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

**2015 dccc 3**

*Cynghorydd Cenedlaethol*

## 21 Swyddogaethau'r Cynghorydd

(1) Mae'r Cynghorydd Cenedlaethol i arfer y swyddogaethau canlynol, yn ddarostyngedig i gyfarwyddyd Gweinidogion Cymru—

(a) cynghori Gweinidogion Cymru ynghylch ymgyrraedd at ddiben y Ddeddf hon neu fynd i'r afael â materion cysylltiedig (gweler is-adran (2));

(b) darparu cynhorthwy arall i Weinidogion Cymru wrth iddynt ymgyrraedd at ddiben y Ddeddf hon neu fynd i'r afael â materion cysylltiedig;

(c) gwneud gwaith ymchwil mewn perthynas ag ymgyrraedd at ddiben y Ddeddf hon, mynd i'r afael â materion cysylltiedig neu ymchwilio i weld a yw cam-drin o unrhyw fath yn gysylltiedig yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ag anghydraddoldeb o unrhyw fath rhwng pobl o wahanol ryw, hunaniaeth o ran rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol;

(d) darparu cyngor a chynhorthwy arall, gyda cydsyniad Gweinidogion Cymru, i unrhyw berson ar faterion sy'n ymwneud ag ymgyrraedd at ddiben y Ddeddf hon neu fynd i'r afael â materion perthnasol;

(e) cynhyrchu adroddiadau ar unrhyw fater sy'n berthnasol i ddiben y Ddeddf hon neu fynd i'r afael â materion cysylltiedig.

(2) Ystyr "mater cysylltiedig" at ddiben is-adran (1) yw camdriniaeth sydd, ym marn y Cynghorydd Cenedlaethol, yn gysylltiedig yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ag anghydraddoldeb o unrhyw fath rhwng pobl o wahanol ryw, hunaniaeth o ran rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol.

(3) Os bydd y Cynghorydd Cenedlaethol yn gofyn i awdurdod perthnasol ddarparu gwybodaeth at ddiben arfer unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r Cynghorydd, rhaid i'r awdurdod gydymffurfio â'r cais oni fo'r awdurdod yn ystyried y byddai gwneud hynny—

(a) yn anghydnaws â dyletswyddau'r awdurdod ei hun, neu

(b) yn cael effaith andwyol fel arall ar arfer swyddogaethau'r awdurdod.

(4) Rhaid i awdurdod perthnasol sy'n penderfynu peidio â chydymffurfio â chais o dan is-adran (3) hysbysu'r Cynghorydd Cenedlaethol yn ysgrifenedig am y rhesymau dros y penderfyniad.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 21 mewn grym ar 29.6.2015, gweler **a. 25(2)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, Adran 21.